# Canllaw arfer da: gwarchod pathewod yn ystod gweithrediadau rheoli coetir a gwaith coed

*Fersiwn 1.0 Mai 2026*

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn arferion da i gadw o fewn y gyfraith, yna:

- mae'n **rhaid** i chi gymryd mesurau ataliol i warchod pathewod
- **dylech** ddilyn cymaint o'r pum cam gweithredu gorau i wella cynefin i bathewod ag y gallwch

# Cyflwyniad

Mae'r pathew (*Muscardinus avellanarius*) yn rhywogaeth warchodedig â blaenoriaeth yng Nghymru, wedi'i rhestru o dan ddeddfwriaeth y DU ac Ewrop oherwydd gostyngiadau sylweddol yn ei phoblogaeth a'i chynefin dros y ganrif ddiwethaf. Mae pathewod bellach yn cael eu hystyried yn un o'r mamaliaid sydd fwyaf dan fygythiad yng Nghymru, ac mae eu niferoedd wedi gostwng tua 70% i 80% ym Mhrydain ers 2000. Yng Nghymru, fodd bynnag, maent yn dal yn bresennol mewn llawer o'u tiriogaeth hanesyddol, er bod poblogaethau'n parhau i fod yn dameidiog ac mewn perygl.

Mae'r rhywogaeth wedi'i dosbarthu fel 'dan fygythiad' ar y rhestr goch ar gyfer mamaliaid Prydain, ond efallai ei bod bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael ei rhestru fel 'mewn perygl' oherwydd difrifoldeb ei dirywiad.

Bydd pathewod yn defnyddio amrywiaeth o fathau o goetir. Maent yn fwyaf aml yn gysylltiedig â choetir llydanddail wedi'i strwythuro'n dda, gwrychoedd a phrysgwydd, ond maent hefyd i'w cael mewn cynefinoedd eraill. Mae coetir wedi'i docio a choetiroedd sy'n cynnwys ardaloedd cyn cau'r canopi, ac yn enwedig ardaloedd â gwahanol oedrannau a mathau o strwythur coetir, yn fwy tebygol o ddarparu'r amodau gorau. Gellir dod o hyd i bathewod hefyd mewn planhigfeydd conwydd, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys ymylon rhodfeydd, llennyrch prysgoediog, prysgwydd, a gwrychoedd trwchus sy'n gysylltiedig â choetir neu ardaloedd agored â llawer o lystyfiant.

Yn y gwanwyn a'r haf, mae nythod bridio i'w cael o fewn haenau llwyni trwchus, coetir ifanc, a gwrychoedd cyfoethog eu rhywogaethau lle mae coed cyll, gwyddfid, mieri a llystyfiant clymog arall yn darparu lloches a bwyd. Fel arfer, mae nythod haf 0.5 i 2 metr uwchben y ddaear ond gallant fod yn uwch o fewn tyllau coed ac ymhlith planhigion dringo trwchus megis gwyddfid.

Yn y gaeaf, mae pathewod yn gaeafgysgu ar lefel y ddaear. Maent yn defnyddio lleoliadau sy'n gymharol sych, wedi'u hamddiffyn rhag rhew, ac yn rhydd rhag aflonyddwch. Gallant aeafgysgu mewn deiliach marw, mwsogl, o dan foncyffion, wrth waelod gwrychoedd, neu o dan wreiddiau coed.

Credir mai colli cynefinoedd, darnio, a'r gostyngiad mewn coetiroedd a reolir yn addas yw'r prif resymau dros eu dirywiad. Mae newid hinsawdd sy'n arwain at aeafau cynhesach a gwlypach hefyd yn debygol o fod yn effeithio ar boblogaethau.

Mae darparu amodau cynefin da yn sail i adferiad pathewod yng Nghymru a bydd hefyd o fudd i lawer o rywogaethau eraill. Mae ymdrechion cadwraeth yng Nghymru yn canolbwyntio ar adfer cynefinoedd a gwella cysylltedd, ynghyd ag ymchwil ac ehangu ymdrechion arolygu.

# Sut mae pathewod yn cael eu gwarchod?

Mae pathewod yn Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop ac yn cael eu gwarchod o dan y Rheoliadau Cynefinoedd a’r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad. Mae hyn yn golygu bod rhaid i chi osgoi effeithio ar bathewod mewn ffordd a fyddai’n drosedd, fel eu lladd neu eu hanafu’n fwriadol, neu eu haflonyddu’n fwriadol neu’n ddi-hid, yn enwedig i’r graddau y mae’n amharu ar eu gallu i oroesi, bridio neu aeafgysgu neu’n effeithio’n sylweddol ar y boblogaeth leol.

Rhaid i chi hefyd osgoi difrodi neu ddinistrio safleoedd bridio a mannau gorffwys pathewod a gallai hyn fod yn drosedd hyd yn oed os nad ydych chi'n ei wneud yn fwriadol. Mae'n anodd adnabod nythod unigol, ond bydd pathewod yn dibynnu ar ardal o gynefin ar gyfer bridio a gaeafgysgu, felly mae'r amddiffyniadau'n cael eu cymhwyso i'r ‘ardal weithredol hon’ o gynefin y mae'r boblogaeth leol yn ei defnyddio at y ddau ddiben hyn.

Mae rheoli coetiroedd yn briodol yn hanfodol i gynnal yr amodau y mae pathewod eu hangen o ran cynefin. Fodd bynnag, gall gweithgareddau rheoli hefyd gael effaith negyddol ar y boblogaeth leol os na chânt eu rheoli mewn ffordd sensitif. Hyd yn oed os yw canlyniad terfynol y gwaith hwn yn creu cynefin mwy ffafriol, os yw'r boblogaeth leol wedi'i cholli oherwydd y gweithgaredd rheoli, yna ni fydd yn elwa ar hyn. Am y rheswm hwn, bydd cynnal ‘swyddogaeth ecolegol’ yn golygu rheoli eich coetir mewn ffordd sy’n cynnal neu’n gwella pa mor ffafriol yw’r cynefin yn yr hirdymor wrth sicrhau bod digon o gynefin addas a thawel gerllaw, fel bod y boblogaeth leol yn parhau i ffynnu tra bod gwaith rheoli yn digwydd. Mae cynnal digon o gynefinoedd heb eu tarfu yn elfen angenrheidiol o weithio'n gyfreithlon.

Oherwydd bod pathewod yn bresennol mewn coetir ym mhob cam o'u cylch bywyd, nid oes ‘cyfnod diogel’ clir pan all gwaith ddigwydd heb beri risg. Fodd bynnag, maent yn tueddu i adeiladu eu nythod bridio mewn coed, llwyni a gwrychoedd a’u nythod gaeafgysgu ar y ddaear, felly gellir amseru gweithgareddau weithiau i osgoi effeithiau sylweddol yn ystod cyfnodau critigol, yn enwedig drwy osgoi gwaith sy'n effeithio ar goed a llwyni yn ystod y tymor bridio.

Unwaith y bydd coetir wedi'i strwythuro'n dda, dylai’r gwaith o hwyluso’r broses o reoli coetiroedd yn weithredol wrth gefnogi poblogaethau pathewod ac osgoi troseddau fod yn

symlach, oherwydd mae'n annhebygol mai'r ardaloedd y mae angen i chi weithio ynddynt fydd yr ardaloedd sydd fwyaf addas ar gyfer pathewod.

Os na allwch osgoi trosedd drwy ddilyn y canllawiau hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu datblygu ffyrdd gweithio amgen, penodol i'r safle, i'ch galluogi i lynu wrth y gyfraith. Os nad yw hynny'n bosibl, efallai y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi trwydded i'ch galluogi i gyflawni eich gwaith yn gyfreithlon, ond dim ond os ydym yn hyderus nad oes dewis arall boddhaol ac na fydd yn niweidio statws cadwraethol ffafriol y rhywogaeth y gallwn wneud hynny. Dim ond fel dewis olaf y gellir rhoi trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

Mae'r canllaw arfer da hwn wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru fel canllaw o dan baragraff 43(9)(b) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae hyn yn golygu bod rhaid i lys ei ystyried mewn achosion sy'n ymwneud â throseddau aflonyddu ar bathewod, neu ddifrodi a dinistrio eu safleoedd bridio neu eu mannau gorffwys.

# A yw pathewod yn defnyddio eich coetir?

Gyda Chymdeithas y Mamaliaid, rydym wedi cynhyrchu canllaw *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru*, sy'n cynnwys cyngor penodol ar sut i gynnal arolygon i wirio am rywogaethau a warchodir.

## Gwirio am gofnodion

Os oes unrhyw gofnodion o bathewod o fewn 2 km i'ch coetir, dylech ragweld y bydd pathewod yn debygol o fod yn bresennol mewn ardaloedd o gynefin addas.

Os byddwch yn gwneud cais am drwydded cwympo coed, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio am gofnodion. Os byddwn yn dod o hyd i gofnodion sy'n awgrymu eu presenoldeb, byddwn fel arfer yn ychwanegu amod amgylcheddol at eich trwydded cwympo coed yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddilyn y mesurau yn y canllaw hwn.

Os hoffech chi fod yn fwy sicr a oes pathewod yn bresennol ai peidio, gallwch gomisiynu arolygwr cymwys i gynnal arolwg. Os ydych chi eisoes yn gwybod eu bod nhw'n defnyddio'ch coetir, dylech chi fwrw ymlaen ar y sail honno.

## Arolwg ar droed

Os yw'n debygol y bydd pathewod yn defnyddio'ch coetir, bydd angen i chi asesu pa mor ffafriol yw cynefin eich safle gan ddilyn y canllawiau yn *Rhywogaethau a warchodir mewn coetiroedd:canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru.* Efallai fod eich coetir yn cynnwys ardaloedd â gwahanol raddau o ffafrioldeb ac, os felly, dylech fapio'r rhain mor gywir â phosibl.

Hyd yn oed os nad ydych chi'n rhagweld y bydd pathewod yn bresennol, dylech chi fod yn wyliadwrus o hyd am arwyddion eu bod nhw.

Cyn y gallwch chi weithredu'r mesurau ataliol yn yr adran nesaf, bydd angen i chi fod wedi sefydlu'r canlynol:

1. P'un a yw cofnodion, arolygon neu wybodaeth arall yn dangos bod pathewod yn debygol o fod yn defnyddio eich coetir ac, os felly:
    a. Yr ardaloedd o'ch coetir sy'n cynnwys cynefinoedd hynod ffafriol a chymharol ffafriol ar gyfer pathewod gan ddilyn y dull yn *Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd:canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru.* Dylech chi fod wedi cyfrifo arwynebedd pob un a'u cofnodi ar fap.
    b. Cyfanswm arwynebedd y cynefin ffafriol – dyma gyfanswm arwynebedd y cynefin ffafriol iawn a chymharol ffafriol o dan eich rheolaeth o fewn y goedwig/coetir cyfan (p'un a yw'n cael ei weithio ai peidio).

Os na allwch asesu ffafrioldeb y cynefin yn hyderus, bydd angen i chi geisio cyngor gan ecolegydd cymwys. Fel arall, gallwch gymryd ymagwedd ragofalus a chymryd yn ganiataol bod y cynefin yn ffafriol.

# Mesurau ataliol i warchod pathewod

Os ydych chi'n dibynnu ar ddilyn yr arfer da hwn i gadw o fewn y gyfraith, bydd angen i chi lynu wrth y mesurau canlynol. Os na allwch wneud hyn, efallai y bydd ecolegydd cymwys yn gallu awgrymu mesurau lliniaru penodol i'r safle a allai ganiatáu ichi wyro oddi wrth y mesurau safonol hyn heb achosi trosedd. Os nad yw hyn yn bosibl, efallai y bydd angen i chi newid eich cynlluniau neu ystyried gwneud cais am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop.

**Nid ydym yn ystyried bod unrhyw fesurau lliniaru** a allai leihau'r risg o lwyrgwympo coed, teneuo coed neu glirio prysgwydd mewn cynefin pathewod yn ystod y tymor bridio craidd yn foddhaol.

Pan ydym yn siarad am "**lwyrgwympo coed**", rydym yn golygu cael gwared ar yr holl goed, neu'r rhan fwyaf o goed, o ardal, naill ai drwy gwymp coed mewn grwpiau ar raddfa fawr neu drwy dorri llannerch gyfan.

Pan ydym yn siarad am "**deneuo coed**", rydym yn golygu tynnu cyfran ddetholiadol o goed o ardal, fel arfer i leihau dwysedd a gwneud lle i'r coed sy'n weddill, ond heb glirio unrhyw ardal sylweddol o goed yn llwyr.

Pan ydym yn siarad am "**glirio prysgwydd**", rydym yn golygu cael gwared ar fieri, rhedyn, llwyni coediog a choed bach, ond nid torri ardaloedd o laswellt byr.

Mae'r mesurau hyn yn ofynnol os ydych chi'n gweithio mewn **cynefin ffafriol**. Mewn ardaloedd â chynefinoedd anffafriol, nid oes angen i chi ddilyn y mesurau hyn. Fodd bynnag, dylech chi ddal chwilio am ffyrdd o wella pa mor ffafriol ydynt.

Os byddwch yn dod o hyd i dystiolaeth o'r rhywogaeth yn annisgwyl yn ystod gwaith, dylech ystyried a allwch gymhwyso'r mesurau yn y canllaw hwn neu geisio cyngor gan ecolegydd cymwys.

Os ydych chi eisoes yn gweithredu o dan drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop, rhaid i chi barhau i ddilyn ei thelerau ac amodau.

Wrth weithio mewn cynefinoedd ffafriol o fewn coetiroedd lle mae pathewod yn debygol o fod yn bresennol, rhaid glynu wrth y canlynol:

**1. Osgoi’r tymor bridio wrth lwyrgwympo coed, teneuo coed neu glirio prysgwydd**

- Ni chaniateir llwyrgwympo coed, teneuo coed na chlirio prysgwydd yn ystod y tymor bridio craidd, sef rhwng 1 Mehefin a 31 Awst. Lle bo modd, osgowch y cyfnod rhwng 1 a 15 Medi hefyd.

**2. Cyfyngu ar effaith llwyrgwympo coed, teneuo coed neu glirio prysgwydd**

- Ni ddylai lwyrgwympo coed fod yn fwy na'r meintiau llannerch mwyaf yn Nhabl 1.
- Ni ddylai cyfanswm cyfran y cynefin ffafriol sy'n destun llwyrgwympo coed, teneuo coed neu glirio prysgwydd fod yn fwy na'r trothwyon yn Nhabl 1.
- Rhaid i lennyrch sy'n cynnwys cynefin ffafriol gerllaw ardaloedd sy'n cael eu gweithio aros heb eu tarfu am o leiaf pum mlynedd. (Mae llannerch yn ardal o goetir sydd wedi'i marcio ar gyfer llwyrgwympo neu deneuo.)

**3. Cyfyngu ar effaith echdynnu coed**

- Lle bo modd, cyfyngwch lwybrau echdynnu i lwybrau sy’n bodoli eisoes ac ardaloedd o gynefin anffafriol ac osgoi echdynnu trwy ardaloedd o gynefin ffafriol.
- Ni ddylid echdynnu pren drwy ardaloedd heb eu gweithio sydd â chynefin ffafriol.

**4. Osgoi pentyrru pren mewn ardaloedd sensitif**

- Yn ddelfrydol, pentyrrwch bren ar lawr caled ac i ffwrdd o ardaloedd o gynefin ffafriol.
- Os oes rhaid i chi bentyrru pren ger cynefin ffafriol, er mwyn osgoi effeithio ar bathewod sy'n gaeafgysgu, dylai'r pentyrrau fod ar dir sydd â llystyfiant prin a dylid cael gwared â nhw rhwng 1 Ebrill a 30 Medi neu yn ystod yr un gaeaf/gwanwyn ag y cawsant eu pentyrru.
- Ni ddylid pentyrru pren mewn ardaloedd heb eu gweithio sydd â chynefin ffafriol.

**5. Ystyried pathewod wrth gynllunio gweithrediadau coetir eraill**

- Os bwriedir cael gwared ar unrhyw falurion, rhaid cael gwared arnynt ar unwaith a pheidio â'u llosgi o fewn cynefin ffafriol.
- Rhaid braenaru’r tir, fel creu twmpathau a chreithio hadau, cyn i'r safle ddod yn gynefin ffafriol (fel prysgwydd sy'n dod i'r amlwg). Lle bo modd, dylid osgoi braenaru'r tir hefyd rhwng 1 Tachwedd a 31 Mawrth o fewn 50 metr i ardaloedd o gynefin ffafriol gan y gall pathewod hefyd aeafgysgu yn yr ardaloedd hyn.
- Defnyddiwch chwistrellu mewn ardaloedd bach â llaw neu chwynnu â llaw, yn hytrach na thaenu cemegion â llaw, mewn cynefin ffafriol.

**Tabl 1: Trothwyon llwyrgwympo coed, teneuo coed a chlirio prysgwydd**

| Gweithgaredd | Coetiroedd llai (10 hectar neu lai) | Coetiroedd mwy (dros 10 hectar) |
|---|---|---|
| **Llwyrgwympo coed a chlirio prysgwydd** | Wrth lwyrgwympo coed mewn cynefin hynod ffafriol, ni ddylai maint y llannerch fod yn fwy nag 1 hectar. Mewn cynefin cymharol ffafriol, ni ddylai maint y llannerch fod yn fwy na 2 hectar.<br><br>Ni ddylai'r arwynebedd mwyaf o goetir sydd wedi'i glirio neu sy'n destun clirio prysgwydd mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd fod yn fwy na 20% o gyfanswm y cynefin ffafriol a rhaid iddo gynnwys dim mwy na 15% o gynefin hynod ffafriol. | Wrth lwyrgwympo coed mewn cynefin hynod ffafriol, ni ddylai maint y llannerch fod yn fwy na 3 hectar.<br><br>Mewn cynefin cymharol ffafriol, ni ddylai maint y llannerch fod yn fwy na 10 hectar.<br><br>Ni ddylai'r arwynebedd mwyaf o goetir sydd wedi'i glirio neu sy'n destun clirio prysgwydd mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd fod yn fwy na 33% o gyfanswm y cynefin ffafriol a rhaid iddo gynnwys dim mwy na 25% o gynefin hynod ffafriol. |
| **Teneuo coed** | Ni ddylai teneuo coed arwain at fwy na 33% o gyfanswm arwynebedd y cynefin ffafriol yn cael ei weithio mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd, neu 25% o gynefin hynod ffafriol. Os oes gennych chi hefyd ardaloedd lle mae coed wedi’u llwyrgwympo neu lle mae prysgwydd wedi’u clirio, bydd angen i chi ystyried y rhain cyn cyfrifo’ch trothwy teneuo. | Ni ddylai teneuo arwain at fwy na 50% o gyfanswm arwynebedd y cynefin ffafriol yn cael ei weithio mewn unrhyw gyfnod o bum mlynedd, neu 33% o gynefin hynod ffafriol. Os oes gennych chi hefyd ardaloedd lle mae coed wedi’u llwyrgwympo neu lle mae prysgwydd wedi’u clirio, bydd angen i chi ystyried y rhain cyn cyfrifo’ch trothwy teneuo. |

# Y pum cam gweithredu gorau i wella cynefinoedd ar gyfer pathewod

Gall rheoli eich coetir yn unol â Safon Coedwigaeth y DU ddod â buddion sylweddol i fywyd gwyllt. Byddai'r camau gweithredu isod yn arbennig o werthfawr i bathewod, a byddant hefyd yn cefnogi llawer o rywogaethau eraill:

### 1. Cynnal a gwella is-dyfiant llwyni a phrysgwydd sydd wedi'i gysylltu'n dda

Sicrhewch is-dyfiant amrywiol gyda rhywogaethau fel cyll, gwyddfid a mieri. Osgowch gysgodi gormodol a rheolwch bwysau pori gan geirw neu dda byw. Gall tyfiant cam dryslwyn yn dilyn gweithrediadau llwyrgwympo hefyd ddarparu cynefin da i bathewod. Mewn coetir conwydd, ceisiwch gadw ardaloedd o dyfiant cam dryslwyn. Bydd cadw coed llydanddail sydd wedi hadu eu hunain yn ystod teneuo hefyd yn cynyddu'r potensial i bathewod.

### 2. Hyrwyddo cysylltedd cynefinoedd y tu hwnt i'r coetir

Cynhaliwch neu greu gwrychoedd a choridorau prysgwydd sydd wedi'u cysylltu'n dda sy'n cysylltu coetiroedd. Mae cysylltedd yn hanfodol ar gyfer symudiad pathewod ac amrywiaeth enynnol.

### 3. Cadw ac annog coed a llwyni sy'n dwyn ffrwyth

Mae rhywogaethau fel y gollen, y griafolen, yr ywen, y gastanwydden bêr a’r dderwen yn darparu adnoddau bwyd hanfodol. Yn ddelfrydol, rheolwch gyll fel coedlan cylchdro hir.

### 4. Rheoli strwythur coetiroedd er amrywiaeth

Anogwch gymysgedd o ddosbarthiadau oedran ac amrywiaeth strwythurol (er enghraifft, coedlannau, llennyrch, rhodfeydd). Cynhwyswch lennyrch prysgoediog ac ymylon rhodfeydd sy'n gyfoethog eu rhywogaethau.

### 5. Diogelu a hyrwyddo mieri a gwyddfid

Mae'r rhain yn darparu bwyd a deunydd nythu. Osgowch glirio'r holl fieri wrth reoli rhodfeydd neu ymylon.

# Gwybodaeth bellach

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth ddefnyddiol am dechnegau arolygu a dulliau rheoli cadarnhaol ar gyfer pathewod yma:

Rhywogaethau gwarchodedig mewn coetiroedd: canllaw maes ar gyfer rheolwyr coetiroedd yng Nghymru

Hazel Dormouse Conservation Handbook (e-lyfr) – Cymdeithas y Mamaliaid

Hazel dormice facts – Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl

Surveying and monitoring hazel dormice – canllawiau Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl

Managing small woodlands for dormice – canllawiau Ymddiriedolaeth y Bobl dros Rywogaethau mewn Perygl